

Ein Byd

Darlleniad: Genesis 1

‘Eiddo Duw yw’r byd a’i gri yw ei gael yn ôl.’ (David Pawson)

‘Nef a daear, tir a môr
Sydd yn datgan mawl ein Iôr.’

Diolch i Ti, Arglwydd, am blannu ynom yr ysbryd i gredu hynny o waelod calon. D’eiddo Di yw’r cyfan a grewyd, ac ni allwn ond synnu a rhyfeddu at dy fawredd a’th allu. Creaist fydsawd godidog yn llawn swyn a thlysi. Wrth i ni ddeffro bob bore, clywn adar yn canu ac anifeiliaid yn breffu, a’r cyfan fel pe baent yn dweud ‘Diolch yn fawr’ wrth Grëwr sydd a’i nerth a’i allu y tu hwnt i allu dynol. Ein braint ni, Arglwydd, yw cydnabod ein dyled am gael rhan yn diolch i Ti am brydferthwch y greadigaeth.

Sylweddolwn mai ni fel pobl, Arglwydd, sy’n gyfrifol am ddifetha yr hyn a grëaist Ti. Am mai pobl lygredig ydym, bu i ni ledaenu pob llygredd sy’n rhan ohonom i greu llanast yn dy fyd Di. Nid oes angen ein hatgoffa, Arglwydd, fod y canlyniadau yn ddinistriol a difaol. Am i ni gerdded ein ffyrdd ein hunain, llwyddasom i droi panorama o fyd yn anialwch. Gwelwn hynny ar hyd a lled ein daear. Nid oes angen i ni edrych ymhell, Arglwydd, am y llanast hwn. Credwn hefyd mai ni fyddai’r rhai cyntaf i gwyno a thuchan pe byddem yn gorfod

‘Meddwl am fyd heb flodyn i’w harddu,
Meddwl am wlad heb goeden na llwyn,
Meddwl am awyr heb haul yn gwenu,
Meddwl am wanwyn heb awel fwyn.
Diolchwn, Dduw, am goed a haul a blodau,
Diolchwn, Dduw, rhown glod i’th Enw Di.

Meddwl am fyd heb un anifail,
Meddwl am gae heb wartheg ac ŵyn,
Meddwl am afon heb un pysgodyn,
Meddwl am wawr heb adar a'u swyn.
Diolchwn, Dduw, am dy holl greaduriaid,
Diolchwn, Dduw, rhown glod i'th Enw Di.

Meddwl am fyd heb bobl i'w lenwi,
Pobman yn wag, y strydoedd a'r tai,
Meddwl am dref heb draffig na hewlydd
Neb yma i garu, neb i faddau bai.
Diolchwn, Dduw, am deulu ac am ffrindiau
Diolchwn, Dduw, rhown glod i'th Enw Di.'

Mae meddwl y pethau hyn, Arglwydd, yn oeri ein calonnau, ac yn fwy na hynny, yn tristáu dy Ysbryd sanctaidd.

Dymunwn ger dy fron yn awr, gyflwyno i Ti wledydd ac unigolion sy'n goddef oherwydd ein hesgeulustod ni. Mae yna wledydd ac ardaloedd, Arglwydd, yn goddef newyn a marwolaeth, a hynny ar raddfa aruthrol fawr bob dydd. Sawl bywyd a gollwyd hyd yn hyn heddiw, Arglwydd? Mae ateb, a meddwl am ateb, y math yma o gwestiwn yn codi braw a dychryn arnom. Ein cyfrifoldeb felly yw gwneud ein rhan

'I gario baich fy mrawd,
I weini'n dirion ar y gwan
A chynorthwyo'r tlawd.'

Hyn yn wir yw ein rhan. Gofynnwn, felly, am dy faddeuant ac am hwb dy Ysbryd sanctaidd i gyflawni yr hyn y gelwi Di arnom i'w wneud er mwyn Iesu Grist.

Amen.

Iwan Ll. Jones